# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 8

DARPARU TOILEDAU

*Strategaethau toiledau lleol*

### 114 Strategaethau toiledau lleol: datganiad cynnydd interim

(1) Rhaid i awdurdod lleol sydd wedi cyhoeddi strategaeth toiledau lleol o dan adran 113 (pa un ai yn unol ag adolygiad o'r strategaeth, neu fel arall) lunio a chyhoeddi datganiad cynnydd interim yn unol â'r adran hon.

(2) Rhaid i awdurdod lleol sydd wedi adolygu ei strategaeth toiledau lleol o dan adran 113(3), ond nad yw wedi ei diwygio, lunio a chyhoeddi datganiad cynnydd interim yn unol â'r adran hon.

(3) Mae datganiad cynnydd interim yn ddatganiad o'r camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd yn unol â'i strategaeth toiledau lleol yn ystod y cyfnod ("cyfnod y datganiad") o 2 flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad—

(a) y cyhoeddwyd y strategaeth honno ddiwethaf gan yr awdurdod, yn achos gofyniad a osodir gan is-adran (1);

(b) yr adolygwyd y strategaeth honno ddiwethaf gan yr awdurdod, yn achos gofyniad a osodir gan is-adran (2).

(4) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei ddatganiad cynnydd interim heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl diwrnod olaf cyfnod y datganiad.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y materion y dylent eu hystyried wrth lunio datganiad cynnydd interim; a rhaid i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr is-adran hon.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 114 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 114 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 114 mewn grym ar 31.5.2018 gan O.S. 2018/605, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 114 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2